**Pontio i'r ysgol uwchradd ar gyfer plant sydd â mudandod dethol**

# Rhestr wirio cynllunio

Cofiwch, bydd amser a neilltuir i sicrhau pontio cadarnhaol yn arbed amser yn ddiweddarach!

Bydd angen cyfnod pontio mwy estynedig ar blant â mudandod dethol, a bydd yn rhaid cynnal cyfarfodydd i gydlynu hynny. Dylid cynnal o leiaf un cyfarfod cyn y pontio (cyn y Pasg yn ddelfrydol) ac un cyfarfod ar ôl y pontio.

Dylid gwahodd y tîm cyfan o amgylch y plentyn i gyfarfodydd pontio e.e. rhieni, yr athro/athrawes a'r Cydlynydd ADY presennol, a'r tiwtor dosbarth a'r Cydlynydd ADY newydd yn yr ysgol uwchradd. Dylid ceisio barn y plentyn a'i hystyried. Dylai'r cynllun pontio fod yn hyblyg a dylid ei addasu ar sail anghenion a chynnydd y plentyn.

## Cyn y cyfarfod cyntaf

- Dylai rhieni a staff yr ysgol gydgasglu unrhyw ddogfennau defnyddiol, gan gynnwys CDU y plentyn.
- Sicrhewch fod gennych ddogfen sy'n nodi sut mae mudandod dethol yn effeithio ar y plentyn ar hyn o bryd, a beth sy'n gweithio'n dda iddo/iddi ar hyn o bryd.
- Dylid sicrhau y caiff tiwtor dosbarth a Chydlynydd ADY newydd y plentyn wybodaeth sylfaenol am fudandod dethol, er enghraifft drwy wylio fideo *Cyflwyniad i fudandod dethol*.

## Eitemau awgrymedig i'w cynnwys yn agenda/agendâu cyfarfod(ydd) cyn y pontio

1. Sicrhewch fod pawb sy'n bresennol yn deall bod mudandod dethol yn anhwylder gorbryder, nid yn ddewis, a'u bod yn deall bod yn rhaid i rieni a staff yr ysgol gydweithio i greu amgylchedd ble gall y plentyn ffynnu.
2. Cynlluniwch sut i sicrhau bod holl staff yr ysgol yn ymwybodol o fudandod dethol ac yn gwybod sut i ryngweithio â phlentyn sydd â mudandod dethol. A ellid rhannu'r fideo *Cyflwyniad i fudandod dethol* drwy e-bost neu ei wylio yn ystod diwrnod HMS neu gyfarfod staff?
3. Cytunwch ar ffeithiau allweddol y bydd angen i bob aelod o staff yr ysgol eu gwybod am y plentyn. Er enghraifft
    - *Mae gan [Enw] fudandod dethol, anhwylder gorbryder sy'n golygu na*

*fydd yn gallu siarad mewn rhai sefyllfaoedd.*

- Sut mae'r plentyn yn gallu cyfathrebu yn yr ysgol e.e. *Mae [Enw] yn gallu ateb cwestiynau a atebir yn gadarnhaol/negyddol drwy nodio/ysgwyd ei ben a bydd yn gallu ysgrifennu yn y dosbarth os na fydd yn teimlo fod eraill yn cadw llygad barcud. Mae'n annhebygol y bydd [Enw] yn gallu dechrau cyfathrebu, sy'n golygu na fydd yn gallu gofyn am help na chynnig gwybodaeth heb ei gymell.*

- A ddylid gofyn cwestiynau dirybudd i'r plentyn yn y dosbarth.

- Sut y dylid ymdrin â'r gofrestr e.e. *derbyn cyswllt llygad neu godi llaw fel ymateb [Enw].*

- Enw/manylion cyswllt yr aelod allweddol o'r staff ar gyfer y plentyn yn y lleoliad newydd.

4. Cynlluniwch sut i rannu'r wybodaeth uchod. A oes ffordd o hysbysu'r holl staff a allai ryngweithio â'r plentyn amdano/amdani, gan gynnwys staff llanw a staff y swyddfa? Mae'n annhebygol y bydd y plentyn yn gallu eirioli drosto'i hun, ac mae'n debyg na fydd yn dymuno ymddangos yn wahanol i bawb arall, felly bydd angen ymdrin â hynny yn ofalus.

5. Trafodwch yr addasiadau sydd eu hangen at ddibenion cynnal asesiadau ac i sicrhau y bydd y plentyn yn cael ei leoli mewn dosbarthiadau yn ôl ei allu gwirioneddol yn hytrach nag mewn grwpiau is oherwydd ei anallu i siarad yn y dosbarth. Er enghraifft, os yw'r plentyn yn gallu recordio ei lais gartref, a ellid defnyddio hynny yn lle aseiniadau siarad yn yr ysgol? Neu a ellid derbyn ei waith ysgrifenedig fel tystiolaeth o'i sgiliau heb i'r athro/athrawes glywed y plentyn yn siarad?

6. Trafodwch pwy fydd tiwtor dosbarth y plentyn. Os oes dewis, ystyriwch pwy fydd y tiwtor mwyaf addas i'r plentyn. Oes gan unrhyw un brofiad o fudandod dethol yn barod? Pwy sy'n fwy digyffro ac yn fwy sensitif? Bydd angen i'r tîm wybod i ba ddosbarth y bydd y plentyn yn symud a phwy fydd ei diwtor dosbarth er mwyn gallu gweithredu'r cynllun pontio yn effeithiol.

7. Oni bai bod y plentyn yn dymuno dechrau â llechen lân, ceisiwch sicrhau bod o leiaf dau o'i gyfoedion yn y grŵp tiwtor newydd. Dylai'r cyfoedion hynny fod yn ddisgyblion y mae'n eu hadnabod ac yn cyd-dynnu'n dda â hwy.

8. Os yw'r ysgol yn defnyddio cynlluniau eistedd, sicrhewch, bob tro y gellir, y bydd plentyn yn eistedd wrth ymyl disgybl y mae'n ei adnabod ac yn gallu cyd-dynnu'n dda ag ef neu hi. Bydd hyn yn helpu i leddfu gorbryder y plentyn ac felly'n cynyddu ei allu i ganolbwyntio a dysgu.

9. Bydd plant â mudandod dethol yn aml yn cael trafferth bwyta, yfed a defnyddio'r toiled yn yr ysgol. Ystyriwch pa addasiadau rhesymol a allai fod yn angenrheidiol i gynorthwyo'r plentyn i ddiwallu ei anghenion ffisiolegol sylfaenol yn yr ysgol. A allai fwyta cinio mewn ystafell lai gyda ffrind? Oes toiled i bobl anabl y gallai ei ddefnyddio?

10. Cytunwch ar aelod allweddol o staff yr ysgol a fydd yn meithrin perthynas â'r plentyn ac yn cysylltu ag ef neu hi yn rheolaidd (o leiaf unwaith yr wythnos). Ystyriwch yr amser a'r dull gorau i wneud hyn e.e. wyneb yn wyneb neu drwy e-bost. Cofiwch, efallai na fydd plentyn â mudandod dethol yn gallu dechrau cyfathrebu, hyd yn oed drwy e-bost, felly bydd yn ddibynnol ar yr aelod o staff sy'n cysylltu.

11. Cytunwch ar fanylion y cynllun pontio. Penderfynwch a chofnodwch: amcanion y cynllun pontio, pryd a sut i weithredu'r cynllun, pa mor aml y dylai ymweliadau/sesiynau ddigwydd, eu hamcanion a'u strwythur.

    Nodau posibl y cynllun pontio:

    a) Sicrhau bod y plentyn fod yn barod am y pontio

    b) Sicrhau bod y plentyn yn teimlo'n fodlon ei fyd ac yn hyderus yn ei ysgol newydd

    c) Sicrhau bod y plentyn yn gallu elw ar bob agwedd ar y cwricwlwm a chyfranogi drwy gydol y diwrnod ysgol

    d) Galluogi'r plentyn i siarad â rhiant, brawd/chwaer neu ffrind yn yr ysgol, heb neb arall gerllaw

    e) Galluogi'r plentyn i siarad â rhiant, brawd/chwaer neu ffrind, â staff yr ysgol yn gallu clywed

    f) Galluogi'r plentyn i siarad ag aelod(au) penodol o staff yr ysgol

**Eitemau awgrymedig i'w cynnwys yn agenda/agendâu cyfarfod(ydd) wedi'r pontio**

1. Beth sy'n llwyddo?

2. Beth sydd ddim yn llwyddo?

3. Beth yw barn y disgybl? (Dylid ceisio'i safbwyntiau ymlaen llaw).

4. A fydd angen addasiadau rhesymol ar y disgybl a’i allu i sefyll arholiadau (yn enwedig arholiadau llafar)? Os yw'n rhy gynnar i ystyried hynny, pennwch ddyddiad i ailystyried y pwnc, er enghraifft, tymor cyntaf blwyddyn 10.

5. Y camau nesaf

## Cynllun pontio enghreifftiol

### Nod 1: sicrhau bod y plentyn yn barod am y pontio

Tasg 1: Dylai aelod o staff ysgol newydd y plentyn (yr aelod o'r staff a fydd yn gyswllt allweddol y plentyn yn yr ysgol, yn ddelfrydol) ymweld â'r plentyn yn yr ysgol bresennol i geisio lleddfu ofnau'r plentyn am yr ysgol newydd a meithrin perthynas dda.

- Chwaraewch gemau â'r plentyn a chriw bychan o gyfoedion. Cofiwch, y nod yw meithrin perthynas, nid ysgogi'r plentyn i siarad. Dylai'r aelod o staff gynnig sylwadau wrth sgwrsio ac osgoi gofyn cwestiynau uniongyrchol.
- Trafodwch y drefn ddyddiol, dangoswch fap o’r ysgol, a rhannwch unrhyw wybodaeth arall sydd ei hangen ar y plentyn. Gall dangos dogfen brintiedig fod yn ddefnyddiol oherwydd mae'n lleihau cyswllt llygaid yn naturiol.

Tasg 2: Dylai aelod o staff ysgol newydd y plentyn (yr aelod o staff a fydd yn gyswllt allweddol y plentyn yn yr ysgol, yn ddelfrydol) hysbysu'r plentyn fod yr ysgol newydd yn deall ei fudandod dethol.

- Sicrhewch y plentyn fod staff yr ysgol yn deall bod siarad yn anodd iddo, a'u bod yn gwybod na ddylent roi'r plentyn dan bwysau i siarad.
- Os yn briodol, dylai sicrhau bod oedolyn arall y mae'r plentyn eisoes yn fodlon yn ei gwmni yno; gall yr ail oedolyn fod yn gyfryngwr yn ystod y sgwrs honno os bydd angen.

### Nod 2: sicrhau bod y plentyn yn teimlo'n fodlon ei fyd ac yn hyderus yn ei ysgol newydd

Tasg 1: Yn ogystal ag unrhyw nosweithiau agored ac ymweliadau arferol, bydd y plentyn â mudandod dethol yn elwa o ymweld â'i ysgol newydd gyda rhiant ar ddiwedd y diwrnod ysgol pan fydd y disgyblion eraill wedi mynd adref. Gweithgareddau enghreifftiol:

- Gan ddefnyddio map, ymarferwch chwilio am wahanol ystafelloedd a mannau yn yr ysgol.
- Lluniwch lyfr pontio rhithiol neu ar bapur. Dylai'r plentyn dynnu lluniau o'r ystafell ddosbarth, y toiledau, y maes chwarae, y ffreutur ac unrhyw fannau perthnasol eraill o amgylch yr ysgol. Gall hefyd gynnwys lluniau o diwtor dosbarth y plentyn, athrawon pynciau, y Cydlynydd ADY, ac unrhyw staff cymorth. Os yn briodol, anogwch y plentyn i ddangos ei lyfr pontio i'w berthnasau.
- Tasg 2: Os yn briodol, ac os bydd y plentyn yn cytuno, addysgu'r dosbarth newydd am fudandod dethol. Efallai y bydd y plentyn am i'r athro neu'r

athrawes siarad â'r dosbarth, neu efallai y bydd yn dymuno paratoi fideo y gall ei gyfoedion ei wylio neu ysgrifennu llythyr y gall yr athro neu'r athrawes ei ddarllen. Gofynnwch i'r plentyn a yw'n dymuno bod yn bresennol yn y dosbarth pan fydd ei gyfoedion yn dysgu am fudandod dethol.

**Nod 3: Sicrhau bod y plentyn yn gallu elwa ar bob agwedd ar y cwricwlwm a chyfranogi drwy gydol y diwrnod ysgol**

Tasg 1: Dylai holl aelodau staff yr ysgol newydd, gan gynnwys staff y ffreutur a'r swyddfa, wylio'r fideo *Cyflwyniad i fudandod dethol*, i sicrhau eu bod yn ymwybodol o fudandod dethol a sut i ryngweithio â phlant â mudandod dethol.

Tasg 2: Dylai'r holl staff fod yn ymwybodol o'r plentyn â mudandod dethol, ac yn ymwybodol o'r pwyntiau allweddol y cytunwyd arnynt ynghylch sut i gynorthwyo'r plentyn (gweler *Eitemau awgrymedig i'w cynnwys yn agenda/agendâu cyfarfod(ydd) cyn y pontio* **-** eitem 3 yn yr agenda).

Tasg 3: Dylai aelodau allweddol o'r staff fel tiwtor dosbarth y plentyn ac unrhyw aelodau staff a fydd yn gweithio'n agos gyda'r plentyn ddysgu rhagor am fudandod dethol, er enghraifft, drwy wylio'r fideos *Cynghorion Doeth i staff addysgu* a *Thechnegau allweddol*, ac os bydd hynny'n briodol, y fideo ynghylch rhaglenni camau bach. Gallai staff yr ysgol hefyd ddarllen llyfr *Can I tell you about selective mutism* gan Maggie Johnson ac Alison Wintgens.

Tasg 4: Ystyriwch pa addasiadau rhesymol a allai fod yn ofynnol i gynorthwyo'r plentyn i ddiwallu ei anghenion ffisiolegol sylfaenol (bwyta, yfed a defnyddio'r toiled) yn yr ysgol (gweler *Eitemau awgrymedig i'w cynnwys yn agenda/agendâu cyfarfod(ydd) cyn y pontio* **-** eitem 9 yn yr agenda).

**Nod 4: Galluogi'r plentyn i siarad â rhiant, brawd/chwaer neu ffrind yn yr ysgol, heb neb arall gerllaw**

**Nod 5: Galluogi'r plentyn i siarad â rhiant, brawd/chwaer neu ffrind, â staff yr ysgol yn gallu clywed**

**Nod 6: Galluogi'r plentyn i siarad ag aelod(au) penodol o staff yr ysgol**

Nod 4-6: Ni fydd y nodau hyn yn briodol i bob plentyn â mudandod dethol. Efallai y byddant yn briodol ar gyfer plentyn â mudandod dethol llai difrifol; neu blentyn sydd wedi dechrau siarad â'i riant a/neu aelodau'r staff yn ei leoliad presennol ac sy'n awyddus i siarad yn ei leoliad newydd.

Gallai tasgau priodol i gyflawni'r nodau hyn gynnwys sesiynau cynefino, fel y disgrifir yn fideo *Pontio yn yr ysgol gynradd*, a/neu ddull camau bach, fel yr amlinellir yn fideo *Rhaglenni camau bach*.

I gael rhagor o wybodaeth ac arweiniad, gallai rhieni/gofalwyr a staff yr ysgol gyfeirio at *The Selective Mutism Workbook* gan Maggie Johnson a Junhua Reitman a *The*

*Selective Mutism Resource Manual, Ail Argraffiad.* Maggie *Johnson ac Alison Wintgens.*